



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



Targedau Clyfar Cynaliadwyedd



Adeiladau, Adeiladu ac Adnewyddu

1

Cyflwyno rhaglen fonitro gadarn er mwyn sicrhau bod y defnydd o ynni a'r defnydd o ddŵr yn cael eu monitro'n gywir drwy ddarparu a defnyddio System Rheoli Ynni a alluogir gan becyn meddalwedd priodol

2

Newid i sicrhau bod yr holl brosiectau cyfalaf newydd yn cael eu hadeiladu i sgôr 'Rhagorol' BREEAM Carbon Sero Net a bod lleihad cysylltiedig yn effaith y gadwyn gyflenwi

3

Gwella effeithlonrwydd ynni gweddill yr ystâd yn sylweddol, gan roi ystyriaeth lawn i gynlluniau gwresogi newydd ac ynni adnewyddadwy a rhoi'r gorau i ddefnyddio nwy

4

Rhaid i gynlluniau datblygu campws flaenoriaethu cyfleoedd datgarboneiddio fel sgopio ar gyfer prosiectau peilot Gwresogi Carbon Isel/Dim Carbon a gwneud cynnydd sylweddol ar ddeall a gweithredu'r cyfleoedd effeithlonrwydd ynni sy'n weddill.

5

Cyflawni 80% o'r ystâd bresennol ar system reoli adeiladau i wella effeithlonrwydd sy'n cynnwys defnyddio rheoliadau rheoli adeiladau effeithiol

Caiff effeithlonrwydd cysylltiedig â gwaith ailwampio ei ariannu gan ddefnyddio cronfa ailgylchu Salix a benthyciadau Salix. Defnyddir yr offer Salix allanol i fonitro a chyfrifo gwelliannau o ran effeithlonrwydd yn unol â chyfnod ad-dalu 7 blynedd. Caiff gwelliannau o ran effeithlonrwydd eu monitro'n fewnol gan y tîm cynaliadwyedd trwy rwydwaith o is-fesuryddion cyfleustodau. Defnyddir adroddiadau effeithlonrwydd blaenorol i gynllunio gwaith adnewyddu parhaus.



Allyriadau a Gollyngiadau

1

Arolygu'r holl seilwaith draenio i sicrhau bod yr holl ddŵr wyneb a dŵr du wedi'u gwahanu lle mae system garthffosiaeth ar wahân ar waith

2

Lleihau allyriadau sy'n ffoi o ganlyniad i fethiannau o ran cynnal a chadw o 0 i 2028

Caiff allyriadau sy'n ffoi eu monitro drwy brofion gollyngiadau blynyddol ar bob system oergell. Caiff allyriadau eu gwirio a'u hadolygu'n allanol drwy archwiliadau system rheoli amgylcheddol blynyddol.



Cymuned a Phartneriaeth Allanol

1

Sicrhau bod o leiaf 2 grŵp cymunedol yn ymgysylltu/mewn partneriaeth gyda phob rhanbarth campws erbyn Gorffennaf 2024

2

Cynnig o leiaf 5 cyfle gwirfoddoli allanol i staff a myfyrwyr bob blwyddyn

Caiff y calendr o ddigwyddiadau ymgysylltu ei adolygu bob blwyddyn a chaiff niferoedd ymgysylltu eu monitro trwy'r rhestr mynychwyr



Bioamrywiaeth ac Ecosystemau

1

Cynnydd o 200% mewn bioamrywiaeth fflora mewn mannau dolau dynodedig 2030. 100% erbyn 2026

2

Cynnydd o 50% mewn bioamrywiaeth ffawna ar gampysau Caerfyrddin a Llambled erbyn 2030, 30% erbyn 2026

3

Gwaelodlin amrywiaeth rhywogaeth i'w pennu erbyn mis Rhagfyr 2023 ar gyfer campysau Abertawe, Caerfyrddin, Llambled

Cynhelir monitro trwy fonitro trawslun blynyddol mewnol o diroedd Rhennir y canlyniadau i'r grŵp gweithredu bioamrywiaeth, sy'n cwrdd bob mis i roi gwybod am gynnydd gweithredoedd o fewn y blaengynllun bioamrywiaeth ac Eco-system



Gwastraff

1 95% o'r holl wastraff wedi'i wyro o dirlenwi erbyn 2025

2 70% o'r holl wastraff wedi'i ailgylchu erbyn 2025, 80% wedi'i ailgylchu erbyn 2027

3 Bod â phorth '**Warp-It**' ar waith yn gwyro unrhyw asedau defnyddiadwy i adrannau mewnol neu elusennau allanol a phartneriaid erbyn mis Medi 2023.

Caiff yr holl wastraff a gesglir ei bwysu wrth ei gasglu a'i roi'n gyfansymiau fesul campws yn ôl llwybr gwaredu bob mis. Caiff adroddiadau campws eu cynhyrchu a'i darparu i reolwyr campws ddwywaith y flwyddyn. Defnyddir adroddiadau i ddatblygu cynlluniau gweithredu gwastraff i wella cyfraddau gwyro ac ailgylchu. Cyflwyniad allanol i HESA bob blwyddyn



Teithio a Thrafnidiaeth

1

Gostyngiad o 15% mewn allyriadau milltired teithio busnes yr aelod o staff CALI o waelodlin 2017 erbyn 2025

2

Fflyd sero allyriadau 100% erbyn 2030

3

Darparu cyfleusterau teithio gweithredol yn lleoliad pob campws ar gyfer staff a myfyrwyr erbyn 2026

Caiff allyriadau milltired busnes eu monitro bob blwyddyn drwy'r hawliau costau traul yn rhan o gyfrifo carbon ar gyfer HESA a Sero Net Llywodraeth Cymru



Caffael a Chontractio

1

Pwysiad o 10% ar y lleiaf o werth cynaliadwyedd wrth asesu tendrau erbyn 2025

2

Lleihau allyriad CO2 seiliedig ar gaffael o 10% erbyn 2025 ac 20% erbyn 2027

3

Bydd rhaid i unrhyw gyflenwr sy'n dyfarnu mwy na £1 miliwn mewn contractau gwblhau'r Offeryn Positif Net bob blwyddyn gan ddarparu gwerthoedd trosi integredd uwch ynghylch allyriadau.

Caiff ffactorau allyriadau caffael eu cyfrifo bob blwyddyn yn rhan o amserlen adrodd y brifysgol. Cyflwynir adroddiad penodol am gaffael i Bennaeth Caffael Grŵp Y Drindod Dewi Sant i nodi bylchau data a chynnydd yn erbyn y flwyddyn flaenorol. Cynhelir monitro cyfrifiannell allyriadau allanol cyflenwyr bob blwyddyn i sicrhau bod ffactorau trosi allyriadau'n parhau'n ddilys



- 1 Lleihau'r defnydd o ddŵr o 64% o waelodlin 2013 erbyn 2030
- 2 Dyfeisiau llif isel i'w gosod ar bob tap cyhoeddus erbyn 2026
- 3 Sicrhau bod defnydd blynyddol y staff CALI/myfyriwr yn 3.5m³

Wedi'i fonitro'n flynyddol trwy ddefnydd mesuredig llawn a ffigyrau CALI a gyflwynir i HESA. Caiff y monitro ei gyhoeddi yn y cynllun Rheoli Dŵr gydag adolygiad blynyddol.




Carbon Sero Net

1 Lleihau cwmpas allyriadau 1 a 2 o 95% o'r waelodlin erbyn 2030

2 Lleihau allyriadau cwmpas 3 o 20% wedi'i seilio ar niferoedd CALI myfyrwyr staff erbyn 2027

Cynhelir cyfrifon carbon bob blwyddyn gan y tîm Cynaliadwyedd a Thenantiaid ac adroddir arnynt yn gyhoeddus ar dudalen Sero Net Llywodraeth Cymru a thrwy HESA. Caiff y ffigyrau defnydd eu hadolygu'n flynyddol gan y tîm cynaliadwyedd a chaiff y cynlluniau gweithredu perthnasol eu diwygio i wella effeithlonrwydd



Bwyd

1

Gostyngiad o 10% mewn gwastraff bwyd yr aelod o staff CALI erbyn 2025 a 20% erbyn 2028

2

Darparu gwerthoedd allyriadau CO2 prydau ochr yn ochr â gwybodaeth faethol ar gyfer holl brydau'r ffreutur erbyn 2025

3

Sicrhau bod opsiwn bwyta'n iach ac opsiwn rhatach ar gael ym mhob allfa erbyn 2024

4

Gweithio gyda phartneriaid allanol i wyro unrhyw fwyd bwytdwy o hybiau/banciau bwyd erbyn 2025

Sefydlodd y brifysgol waelodlin o 21kg o wastraff bwyd yr aelod o staff CALI ar gyfer blwyddyn 2021/22. Caiff gwastraff bwyd ei fonitro trwy bwysau casgliadau a'i adolygu gan y tîm cynaliadwyedd bob mis. Cyflwynir adroddiadau chwarterol i brif gogyddion pob bwyty i amlygu arfer da a meysydd i'w gwella



Penderfyniadau Moesegol

1

Mae strwythur pwyllgorau'r Brifysgol yn sicrhau bod pob penderfyniad yn cael ei wneud yn foesegol. Mae'r polisiau atebolrwydd o fewn y strwythur hwn yn sicrhau y caiff hyn ei gynnal yn drylwyr.

2

Ail-fuddsoddiad cronfeydd a waredwyd yn hanesyddol yn dilyn y polisi buddsoddi moesegol

3

Rhaid i bob rhaglen ymchwil ddilyn y Broses Adolygu Moesegol, gyda'r gymeradwyaeth derfynol drwy'r Pwyllgor Moeseg Ymchwil a fydd yn adolygu'n unol â'r Cod Ymarfer Moeseg ac Integredd Ymchwil. Sicrhau bod pob rhaglen ymchwil yn cael ei gynnal i'r safonau moesegol uchaf posibl



Llesiant ac Ymgysylltu

1

Recriwtio eiriolwyr cynaliadwyedd ym mhob gwasanaeth proffesiynol ac adran academaidd erbyn 2026.

2

Cyflawni ymgysylltu cyswllt trwy lesiant o 40% erbyn mis Gorffennaf 2024 a 60% erbyn 2028 o gyfanswm y myfyrwyr CALI


3

Darparu o leiaf 10 cyfle i wirfoddoli/ymgysylltu mewnol i fyfyrwyr bob blwyddyn

4

Cynnig swyddi ymgysylltu ar wahanol lefelau ar bob campws i fyfyrwyr. 1 swydd wirfoddol erbyn mis Awst 2024 ac i swydd wirfoddol ac 1 â thâl erbyn mis Awst 2025

Caiff digwyddiadau ymgysylltu a rhifau cyswllt eu hadolygu bob blwyddyn a'u defnyddio i ddatblygu digwyddiadau'r dyfodol



Addysg a Datblygu Cynaliadwy

1

Ymgorffori cynaliadwyedd o fewn 75% o gyrsiau erbyn 2025 a 100% o gyrsiau erbyn 2027

2

Gwneud modwl hyfforddiant cynaliadwyedd yn orfodol i bob myfyriwr newydd erbyn 2025

3

Darparu pecyn cynefino cynaliadwyedd i bob myfyriwr erbyn 2024

Adran gofrestrfa yn adolygu PB2 bob blwyddyn i sicrhau bod nodau cynaliadwyedd cyfredol yn parhau i gael eu cwrdd o fewn pob adroddiad rhaglen a gyflwynir i'r adran gynaliadwyedd. Lle bo angen adolygiad, bydd angen i ymarferwyr academaidd ddiweddarau'r deunydd cwrs PB2 i alinio gyda'r agenda cynaliadwyedd cyfredol. Caiff cynaliadwyedd wedi'i ymgorffori ei fesur trwy gynnwys addysgu cynaliadwyedd ar ffurflenni PB2 yn erbyn cyfanswm niferoedd cyrsiau a gynigir

